

Ysgol Botwnnog

Y Noson Goffi



Magi, Ffion, Tom, Tomos, Elgan a Sophie, rhai o'r disgyblion waneth wisgo fynu

Eleni penderfynodd Blwyddyn 11 gynnal y Noson Goffi flynyddol ar nos Fercher, 6 Tachwedd, 2013. Mae llawer o waith paratoi i'w wneud er mwyn i'r noson fod yn llwyddiant. Gan fod y Noson Goffi yn cyfrannu at ein hastudiaethau BAC, bedair wythnos yn ôl bellach cynhaliwyd gweithdy a oedd yn para drwy'r dydd i holl ddisgyblion Blwyddyn 11 i drefnu gweithgareddau. Yn ystod y gweithdy roeddem yn cael ein rhoi mewn grwpiau o bump gydag aelod o Bwyllgor y Noson Goffi yn arwain pob grŵp. Y cam cyntaf yn ein grwpiau oedd i rannu syniadau o stondinau ar gyfer y noson ei hun neu weithgareddau a fuasai'n cael eu cynnal yn ystod yr amseroedd cinio sbâr. 'Roeddem yn gorfod meddwl am beth fuasai'n dod a llawer o arian tuag at y gronfa. Bu rhaid i ni wedyn ddod i benderfyniad o beth yr oeddem eisiau ei wneud ac yna 'roeddem yn gorfod trefnu popeth yn barod ar gyfer unai gweithgaredd amser cinio neu stondin ar gyfer y noson. Y gweithgaredd cyntaf a gynhaliwyd yn ystod amser cinio oedd gweithgaredd ein grŵp ni, sef 'Dim Chwerthin'. Nod y gweithgaredd yma oedd i gael athrawon a disgyblion i gymryd cegaid o ddŵr a'i ddal yn eu cegau. Gyda'r disgyblion a'r athrawon yn wynebu ei gilydd roedd disgyblion Blwyddyn 11 yn trio gwneud iddynt chwerthin, a'r cyntaf i chwerthin oedd yn colli. Daeth llawer o ddisgyblion i gefnogi ein gweithgaredd, ond yn anffodus yr athrawon wnaeth ennill y gêm y tro yma.

Awel Jones, Blwyddyn 11



'Bownsars' y disgo



Rhai o'r disgyblion oed wedi gwisgo fynu fel gweithgaredd noddi



Gwyn Hughes, y technegydd wrthi'n cael torri ei wallt gan Sioned a Chelsey



Siriol yn brysur ar y stondin gacennau



Dewi Rhys, y gŵr gwadd a Lois Llewelyn Williams, cadeirydd y Pwyllgor Noson Goffi

Nos Fercher, y 6ed o Dachwedd cynhaliwyd y Noson Goffi flynyddol yn yr ysgol. Fel cadeirydd y pwyllgor bŵm yn cynllunio'r noson yma ac yn hel arian ers pedair wythnos gan hel dros £600 yn y disgo, a thros £500 yn y diwrnod ffilmiau ar gyfer y disgyblion.

Yn y Noson Goffi, cafwyd amrywiaeth o stondinau megis gemau ffair, cwis, tombola, raffl, ocsiwn, stondinau gwerthu a'r pwysicaf oll- Groto Siôn Corn! Y gŵr gwadd i agor y noson oedd yr actor a'r awdur, Dewi Rhys, ond nid cael lifft gan Trefor a wnaeth o y tro yma!

Fel Cadeirydd, ar ran y pwyllgor trefnu, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth y noson yn bosib. Yn benodol hoffwn ddiolch i'r Prifathro am roi caniatad i drefnu'r noson, Mrs Nerys Williams am ddioddef ein swnian, ac i'r holl athrawon a staff wnaeth ein cefnogi, gan gynnwys staff y gegin a'r brif gogyddes, Delyth. Diolchwn yn fawr iawn am y cyfraniadau helaeth a gawsom gan fusnesau lleol, ac i bob disgybl ddaeth i gefnogi'n gweithgareddau. Yn bersonol hoffwn ddiolch i fy nghyd-ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 ac i'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth i drefnu'r noson lwyddiannus. Erbyn diwedd y noson fe wnaethom lwyddo i hel bron i £6000 o bunnoedd, gyda'r elw i gyd yn mynd at achosion da a gaiff eu dethol yn fuan, ac mae mwy o arian yn dal i ddod at yr ymgyrch!

Lois Llywelyn, Blwyddyn 11



Yn y groto.

Siôn Corn gyda Lisi Chidley ar ei lin!